# MARWNAD,

NEU,

## DDUWIOL GOFFADWRIAETH,

AM Y PARCHEDIG

## *THOMAS DAVIES,*

GWEINIDOG YR EFENGYL

*Yn y Pant-têg a'r Bwlch-newydd,*

SWYDD GAERFYRDDIN;

YR HWN A YMADAWODD O'R BYD HWN,

Hydref 4, 1813, yn 78 o'i oed,

*Wedi bod yn y Weinidogaeth 49 o flynyddau.*

GAN WILLIAM BEYNON,

BETHANIA, LLANON.

---

NUMERI 20. 29.

A'r holl gynnulleidfa a wylasant am Aaron.

DANIEL 12. 3.

A'r doethion a ddisgleiriant fel disgleirdeb y ffurfafen; a'r rhai a droant lawer i gyfiawnder, a fyddant fel y sêr byth yn dragywydd.

CAERFYRDDIN:

ARGRAPHWYD GAN J. HARRIS, PORTH-TYWYLL.

1814.

# *MARWNAD, &c.*

1 ARGLWYDD mawr y lluoedd uchod,
Brenin y brenhinoedd isod,
Dy ragluniaeth sydd yn hynod,
A'i throeon maith yn peri syndod;
Olwyn fawr yn troi mewn olwyn,
At derfyniad oll yn dirwyn,
Yn dwyn yn mla'n, trwy ddw'r a thân,
Dy amryw lân amcanion,
Dyfnion, dyrus, dwys ddirgelion,
Yn anamlwg i'r angylion.

2 Yn rhediad rhydd dy ragluniaethau,
Fe ddaeth brenin dychryniadau
I Aberdauddwr daeth e'n ddilys,
Nes myn'd a bywyd meistr *Davies;*
Ni wela'i mwy mo hono yno,
Yn ei gystudd trwm yn cwyno,
Aeth efe, 'tifedd ne',
I'n sanctaidd le siriol,
I blith yr hardd gwmpeini nefol,
Sydd a'u sylwadau yn silweddol.

3 Ei alw wnaed i winllan Iesu,
Lle by e' ddiwyd yn ymdrechu,
I gyhoeddi'r iachawdwriaeth,
Sy'n ngwaed yr Oen fel moroedd helaeth:
Ei fywyd oedd yn hynod addas,
A'i gyfeillach hardd yn urddas,
Ac felly 'ro'dd, yn mhob modd,
Ar g'o'dd yn dangos allan,
Rhad rinweddau ei Brynwr pur-lân,
A'r gwaed sy'n golchi'r enaid aflan.

4 Bu'n weinidog cywir cyhoedd
Yn ei eglwysydd faith flynyddoedd,
Wedi ei lanw yn llwydd a doniau
Cywrain, cu ei gymmwysderau;
Ei weinidogaeth oedd lwyddiannus,
Yn adeiladol, dwys, a dilys,
I alw llu, o'r t'w'llwch dû,
I'r goleu cu cannaidd,
Yn sail sylweddol i'r rhai sanctaidd,
I adeiladu mewn modd mwynaidd.

5 Crist oedd swm ei holl bregethau,
Yn ei berson pur a'i swyddau,
Yn nghyflawnder ei rasusau,
A'i anghyffelyb annogaethau,
A'r angenrheidrwydd anhepgorol
O fywyd puraidd, dwys, a duwiol,
Fel effaith glir, o'n planiad pur,
O fewn i'r wir winwydden,
Ac fel rheol rhwydd drachefen,
I ni gael cysur ar y ddaeren.

6 Defnyddiol oedd yn gym'dogaethol,
Yn eglwysig, yn deuluol,

5199

Ei fywyd oedd yn hygar harddu
Y grefydd ag oedd yn broffesu;
Gartre' ac oddi cartre'n wastad,
Siriol syml ei ymddygiad,
  A phawb heb wâd, mewn tre' a gwlad,
  Yn ddinacad yn traethu,
Daccw ffrynd i'r Arglwydd Iesu,
Mae ei dduwioldeb yn arogli.

7 'Roedd yn llawn o bob rhinweddau,
Yn ei waith ac yn ei eiriau,
Y man a'r lle b'le bynnag fyddai,
Yn mhob goror pawb a'i carau;
Ei egwyddor oedd yn gywir,
A'i ddybenion yn dra phrysur,
  At ogoniant Duw, tra bu ef byw,
  Yn wyneb pob rhyw elyn,
Mae e'n awr yn llys y Brenin,
A'i weithredoedd yn ei ganlyn.

8 Wedi diwyd ddilyn yma,
O'r diwedd daeth yr oriau ola',
Er mor drymed ei gystuddiau,
Mae heddyw'n iach ar ben ei siwrnai,
Gydâ'r dorf sy'n difyr foli
Yr hwn mewn pryd fu farw i'n prynu,
  Mewn nefol dôn, heb dewi sôn,
  Heb gur na pho'n yn canu,
Heb ddim drygau byth i'w drygu,
O fewn i'r hardd orphwysfa heddy'.

9 Pan b'wyf yn meddwl am eu cwmp'ni,
Mae fy enaid yn hiraethu,
Am fyn'd ar frys o'r wlad o ofid,
I'r trigfannau dedwydd hyfryd,

I gael rhan o'r swpper sanctaidd,
Yn y gwiw ardaloedd auraidd,
Byth i gael bod, uwch y rhod,
I ganu clod yn gyson,
I'r hwn wrth farw dan yr hoelion,
A lwyr gongcwerodd ein gelynion.

10 Meistr *Davies* a ddihangodd,
Oddiar y ddaear hon a hedoedd,
Gwelodd fyrdd o ryfeddodau,
Ar ol gorphen ar ei siwrnai,
Fe ga'dd ysbryd hwylus hylwydd
I foliannu Crist yr Arglwydd,
Yn mhlith y rhai, sydd heb wae,
Yn ddidrau'n gwledda,
Ar y gwiw guddiedig fanna,
O gwyn fy myd b'awn heddyw yna.

11 Fe drafaelodd wrth bregethu,
Ar hyd y llwybrau daeth i'w gladdu,
Ni welir mwy moi dirion dynfa
I'r oreu glod eglwysydd isa';
Mae eglwys Crist yn prydd ochneidio,
Wrth feddwl ei fod gwedi 'mado,
Heb wybod b'le, dan y ne',
I lanw ei le yn gyfan,
Y ffeindir un trwy chwilio allan,
Fo fel efe yn fugail mwynlân.

12 *Sarah Davies* paid ag wylo,
Cyn bo hir cai fyned atto,
Er i'th dad oedd gu ymado,
Mae Tad'r ysbrydoedd yn fyw etto,
Mae'n ffyddlon ffrynd mewn troeon chwerwon,
I'r rhai ymddifaid yn Dad tirion,

Iesu Grist, y ffyddlon dyst,
Dan drist a thrwm droion,
Fe ddysg dy feddwl fod yn foddlon,
Yn ngwyneb rhagluniaethau chwerwon.

13 Duw anfeidrol a haelionus,
Rho etto ras i *John Davies*,
Cyn ei ddwyn oddiar y ddaear,
Bydd dy hunan iddo'n gydmar;
Fel mewn amser sydd yn canlyn,
Y delo ar ol ei dad i ddilyn,
Trwy bob cro's, a phob lo's,
Ddydd a nos heb fethu,
Dan lifrau hardd y Brenin Iesu,
O ddefnydd drosto ef a'i caru.

14 Yn ddeunaw mlwydd a thrugain oedran,
Yr ymadawodd o'r byd allan,
Ac aeth i'r wlad 'does rhifo dyddiau,
Blynyddoedd, misoedd, nac wythnosau;
Deunaw cant a deg yn union,
A thair oedd oed ein Harglwydd tirion,
Pan aeth i bant, i blith y plant,
I'r mwyniant uwch daeren,
Ar bedwrydd o fis hydref,
Ca'dd ei yrfa ef ei gorphen.

15 Mae'n awr yn cysgu hŷn yn dawel,
Dros ennyd fechan yn y grafel,
A'i enaid wedi llwyr ymado,
At seintiau pur ga'dd eu perffeithio;
Yn *Bwlch-newydd* mae'i gorph yn gorwedd,
Hyd nes delo dydd y diwedd,
Yno yn awr, yn llwch y llawr,
Ne's delo'r awr i fynu,

Y bydd i'r udgorn mawr udganu,
A'r meirw yn Nghrist gaiff gyntaf godi.

16 'Rhaid ymadael dad anwyla',
Dros ychydig mi ffarwela,
'Rwy'n hiraethu gwel'd dy wyneb,
Draw yn mhalas trag'wyddoldeb;
Ac os dof i ben fy ngyrfa,
Fry i'r weddus hardd gymmanfa,
  Caiff Iesu'r clod, uwch y rhod,
  Tra nef yn bod ni flina',
Roi'r gogoniant am fy nala,
Trwy'r 'stormydd blin a chroesau o'r chwerwa.

*William Beynon a'i cânt.*

# GAIR O HYMN

*A hoffodd Mr.* Davies *yn fawr yn ei fywyd a'i iechyd.*

PRYD derfydd i mi bechu,
  Yn erbyn Duw mor dda,
Pryd derfydd i mi flino,
  O herwydd fy holl bla;
Pa bryd daw hyfryd fore,
  Ca'i ro'i fy meichiau lawr,
A nofio yn dragywydd,
  Yn haeddiant Iesu mawr.

DIWEDD.

CAERFYRDDIN:

*Argraphwyd gan Jonathan Harris, yn y Porth-Tywyll.*